Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2015

Annwyl David

Yn ystod ei gyfarfod yr wythnos hon, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) mewn perthynas â Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth Llywodraeth y DU.

Mae'r Memorandwm yn ymwneud â gwelliannau i ddarparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n atal un o gyflogwyr y GIG rhag gwahaniaethu yn erbyn darpar gyflogai am ei fod wedi gwneud datgeliad gwarchodedig (datganiad chwythu'r chwiban) yn flaenorol.

Gan fod y Bil mewn cyfnod hwyr iawn o ran ei daith drwy Senedd y DU ac oherwydd y cyfyngiadau amser, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm at bwyllgor i graffu arno a nododd y byddai'r Llywodraeth yn amserlennu'r Memorandwm ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mawrth 2015. Fodd bynnag, gan fod testun y Memorandwm yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at y Memorandwm, rhag ofn y dymuna'r Pwyllgor drafod y materion a gaiff eu cwmpasu gan y Memorandwm mewn unrhyw ffordd.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i nodi penderfyniad y Pwyllgor Busnes.

Rosemary

**Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230